Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2024 Rhif 854 (Cy. 133)

# ADDYSG, CYMRU

# Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) (Diwygio) 2024

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) 2013 ("Rheoliadau 2013") yn nodi'r gofynion hyfforddi ar gyfer llywodraethwyr mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru.

Mae Rheoliadau 2013 yn darparu bod yr hyfforddiant cyfredol y mae'n ofynnol i gadeirydd corff llywodraethu ei gwblhau wedi ei nodi mewn dogfen o'r enw "Cynnwys yr hyfforddiant ar gyfer cadeiryddion llywodraethwyr yng Nghymru" ("dogfen hyfforddiant ar gyfer cadeiryddion 2013"). Mae rheoliad 2(2)(a) o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2013 er mwyn rhoi yn lle'r cyfeiriad at ddogfen hyfforddiant ar gyfer cadeiryddion 2013 gyfeiriad at y ddogfen hyfforddiant newydd i gadeiryddion o'r enw "Hyfforddiant i gadeiryddion llywodraethwyr yng Nghymru" a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2024 ("dogfen hyfforddiant i gadeiryddion 2024"). Gellir ei chanfod ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru.

Mae Rheoliadau 2013 yn darparu bod y gofynion hyfforddiant ymsefydlu cyfredol ar gyfer llywodraethwyr wedi eu nodi mewn dogfen o'r enw "Cynnwys hyfforddiant ymsefydlu ar gyfer llywodraethwyr yng Nghymru" ("dogfen hyfforddiant ymsefydlu 2013"). Mae rheoliad 2(2)(b) o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2013 er mwyn rhoi yn lle'r cyfeiriad at ddogfen hyfforddiant ymsefydlu 2013 gyfeiriad at y ddogfen hyfforddiant ymsefydlu newydd o'r enw "Hyfforddiant sefydlu i lywodraethwyr ysgolion yng Nghymru" a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2024 ("dogfen hyfforddiant

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

sefydlu 2024”). Gellir ei chanfod ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru.

Mae rheoliad 2(3) o’r Rheoliadau hyn yn mewnosod paragraff newydd (4) yn rheoliad 3 o Reoliadau 2013 i’w gwneud yn ofynnol i’r awdurdod lleol sy’n cynnal ysgol sicrhau y darperir yr hyfforddiant i gadeirydd am ddim. Mae rheoliad 2(4) o’r Rheoliadau hyn yn mewnosod paragraff newydd (7) yn rheoliad 4 o Reoliadau 2013 i’w gwneud yn ofynnol i’r awdurdod lleol sy’n cynnal ysgol sicrhau y darperir yr hyfforddiant ymsefydlu am ddim. Mae rheoliad 2(5) o’r Rheoliadau hyn yn mewnosod paragraff newydd (7) yn rheoliad 5 o Reoliadau 2013 i’w gwneud yn ofynnol i’r awdurdod lleol sy’n cynnal ysgol sicrhau y darperir yr hyfforddiant ar ddata perfformiad ysgolion am ddim. Mae’r gofynion hyfforddiant ar ddata perfformiad ysgolion ar gyfer llywodraethwyr wedi eu nodi mewn dogfen o’r enw “Hyfforddiant i lywodraethwyr ysgol yng Nghymru: deall rôl data o ran cefnogi hunanwerthuso a gwella mewn ysgolion”, a chyfeirir ati yn y diffiniad o “yr hyfforddiant ar ddata perfformiad ysgolion” yn rheoliad 2(1) o Reoliadau 2013. Gellir ei chanfod ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru.

Mae rheoliad 3(a) o’r Rheoliadau hyn yn cynnwys darpariaeth arbed i sicrhau nad oes rhaid i gadeiryddion presennol cyrff llywodraethu gwblhau’r hyfforddiant i gadeirydd yn unol â dogfen hyfforddiant i gadeiryddion 2024 os ydynt eisoes wedi cwblhau’r hyfforddiant i gadeirydd sy’n ofynnol gan Reoliadau 2013 cyn i’r Rheoliadau hyn ddod i rym.

Mae rheoliad 3(b) o’r Rheoliadau hyn yn cynnwys darpariaeth arbed i sicrhau nad oes rhaid i lywodraethwyr ysgol presennol gwblhau’r hyfforddiant ymsefydlu yn unol â dogfen hyfforddiant sefydlu 2024 os ydynt eisoes wedi cwblhau’r hyfforddiant ymsefydlu sy’n ofynnol gan Reoliadau 2013 cyn i’r Rheoliadau hyn ddod i rym.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o’r costau a’r manteision sy’n debygol o ddeillio o gydymffurfio â’r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Is-adran Cynllunio Busnes a Llywodraethiant Addysg, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ ac ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2024 Rhif 854 (Cy. 133)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) (Diwygio) 2024

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *13 Awst 2024* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *15 Awst 2024* |
| *Yn dod i rym* | *9 Medi 2024* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 22(3) a (4) a 32(2) o Fesur Addysg (Cymru) 2011(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

**Enwi, dod i rym a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) (Diwygio) 2024.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 9 Medi 2024.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Rheoliadau 2013" yw Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) 2013(**2**).

**Diwygio Rheoliadau 2013**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau 2013 wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1) (dehongli)—

(**1**) 2011 mccc 7. Gweler adran 31(1) o Fesur Addysg (Cymru) 2011 (mccc 7) am y diffiniadau o "rhagnodedig" a "rheoliadau".

(**2**) O.S. 2013/2124 (Cy. 207), a ddiwygiwyd gan O.S. 2014/1132 (Cy. 111), O.S. 2014/2225 (Cy. 214) ac O.S. 2021/367 (Cy. 112).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(a) yn y diffiniad o “yr hyfforddiant i gadeirydd”, yn lle “ym mis Medi 2013 o’r enw “Cynnwys yr hyfforddiant ar gyfer cadeiryddion llywodraethwyr yng Nghymru”” rhodder “ar wefan llyw.cymru(**1**) ym mis Gorffennaf 2024 o’r enw “Hyfforddiant i gadeiryddion llywodraethwyr yng Nghymru””, a

(b) yn y diffiniad o “yr hyfforddiant ymsefydlu”, yn lle “ym mis Medi 2013 o’r enw “Cynnwys hyfforddiant ymsefydlu ar gyfer llywodraethwyr yng Nghymru”” rhodder “ar wefan llyw.cymru(**2**) ym mis Gorffennaf 2024 o’r enw “Hyfforddiant sefydlu i lywodraethwyr ysgolion yng Nghymru””.

(3) Yn rheoliad 3 (hyfforddiant i gadeirydd), ar ôl paragraff (3) mewnosoder—

“(4) Rhaid i awdurdod lleol yng Nghymru sicrhau y darperir yr hyfforddiant i gadeirydd, am ddim, i bob cadeirydd corff llywodraethu ysgol a gynhelir gan yr awdurdod, o fewn y cyfnod a nodir ym mharagraff (1).”

(4) Yn rheoliad 4 (hyfforddiant ymsefydlu), ar ôl paragraff (6) mewnosoder—

“(7) Rhaid i awdurdod lleol yng Nghymru sicrhau y darperir yr hyfforddiant ymsefydlu, am ddim, i bob llywodraethwr mewn ysgol a gynhelir gan yr awdurdod, o fewn y cyfnod a nodir ym mharagraff (1).”

(5) Yn rheoliad 5 (hyfforddiant ar ddata perfformiad ysgolion), ar ôl paragraff (6) mewnosoder—

“(7) Rhaid i awdurdod lleol yng Nghymru sicrhau y darperir yr hyfforddiant ar ddata perfformiad ysgolion, am ddim, i bob llywodraethwr mewn ysgol a gynhelir gan yr awdurdod, o fewn y cyfnod a nodir ym mharagraff (1).”

**Darpariaethau arbed**

**3.**—(1) Nid oes dim yn y Rheoliadau hyn yn gymwys i’r canlynol—

(a) cadeirydd corff llywodraethu a gwblhaodd yr hyfforddiant i gadeirydd sy’n ofynnol gan reoliad 3(1) o Reoliadau 2013 cyn i’r Rheoliadau hyn ddod i rym, neu

(b) llywodraethwr a gwblhaodd yr hyfforddiant ymsefydlu sy’n ofynnol gan reoliad 4(1) o Reoliadau 2013 cyn i’r Rheoliadau hyn ddod i rym.

(2) Yn y rheoliad hwn—

---

(**1**) www.llyw.cymru.
(**2**) www.llyw.cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(a) mae i "cadeirydd corff llywodraethu" yr ystyr a roddir gan reoliad 2(1) o Reoliadau 2013;

(b) mae i "llywodraethwr" yr ystyr a roddir gan reoliad 2(1) o Reoliadau 2013.

*Lynne Neagle*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, un o Weinidogion Cymru
13 Awst 2024